

MAWRTH 2023

LLWYBRAU CELTAIDD
CELTIC ROUTES
BEALAÍ NA gCEILTEACH

# CYLCHLYTHYR LLWYBRAU CELTAIDD

## Croeso i gylchlythyr Llwybrau Celtaidd mis Mawrth 2023.

**Isod, gwelwch ddiweddariad ar ein cynnydd hyd yn hyn, newyddion am adnoddau newydd i'ch helpu i wneud y gorau o'r brand Llwybrau Celtaidd, a chynlluniau'r prosiect ar gyfer y dyfodol, sy'n annog teithwyr chwilfrydig i ddarganfod ysbryd Celtaidd Cymru ac Iwerddon.**

## LLWYBRAU CELTAIDD TRWY REALITI RHITHWIR!

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr ym maes realiti rhithwir, sef 4PI Productions, i greu cynhyrchiad amlgyfrwng realiti rhithwir a fydd yn rhoi golwg gwbl ymdrochol oddi uchod i'r gwyliwr o leoliadau gwahanol ledled chwe sir y Llwybrau Celtaidd, o'r arfordir i gopaon mynyddoedd.

Bydd y sawl sy'n cymryd rhan yn gallu profi'r Llwybrau Celtaidd 'o'r awyr' trwy bensetiau realiti rhithwir a fydd ar gael ym mhob un o'r siroedd. Bydd rhestr lawn o'r lleoliadau lle mae'r pensetiau ar gael ar ein gwefan yn fuan.



Bydd y cynnwys realiti rhithwir hefyd ar gael trwy ein gwefan lle byddwch yn gallu lawrlwytho'r cynnwys i'ch penset realiti rhithwir eich hun (os oes gennych un), fel y gallwch fynd ar eich antur Llwybrau Celtaidd eich hun o gysur eich ystafell fyw! A gobeithio y cewch eich ysbrydoli i ymweld â ni mewn bywyd go iawn yn fuan wedyn ...

## ‘EIN LLWYBRAU CELTAIDD’ – Y RHAGLEN DELEDU NEWYDD SY’N ARDDANGOS LLWYBRAU CELTAIDD CYMRU AC IWERDDON

Yn ein cylchlythyr diwethaf roeddem wedi dweud wrthych am ein rhaglen deledu newydd – ‘Ein Llwybrau Celtaidd’ – a gafodd ei ffilmio haf diwethaf ar hyd Llwybrau Celtaidd Cymru ac Iwerddon. A’r newyddion da yw bod y rhaglen yn barod i gael ei darlledu’r gwanwyn hwn ar S4C a TG4!

Mae’r sioe yn dilyn Ryland Teifi a’i ddwy ferch, Lowri a Cifa, wrth iddynt fynd ar daith o gwmpas chwe sir y Llwybrau Celtaidd, sef Wicklow, Waterford, Wexford, Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Bydd y rhaglen yn eu dilyn ar y daith hon, ac yn olrhain holl gyffro darganfod, antur, craic a diwylliant.

Cafodd Ryland ei fagu gyda chynifer o ddylanwadau diwylliannol o Dde-orllewin Cymru. Roedd ei dad yn un o sylfaenwyr Gŵyl Werin y Cnapan, a thrac sain ei ieuenctid oedd cerddoriaeth Ar Log, Plethyn a’r Hwntws, yn ogystal â cherddoriaeth Wyddelig. Cyfarfu Ryland â’i wraig Roisin am y tro cyntaf yn 1996 wrth actio gyda Theatr Arad Goch yng Ngŵyl Theatr Dulyn. Wedi hynny, cyfarfu â’i theulu, sef y Clancys, sy’n deulu cerddorol yn debyg iawn i’w deulu ei hun.

Mae gan y teulu wreiddiau a chysylltiadau dwfn yng Nghymru ac Iwerddon. Mae Ryland yn hanu o Geredigion, a Chymraeg y Gorllewin y mae ei ferched yn ei siarad. Maent hefyd yn siarad Gwyddeleg gan eu bod bellach yn byw yn Gaeltacht An Rinn, Swydd Waterford, Iwerddon.

Yn y rhaglen, mae’r teulu tairieithog yn ceisio ailgysylltu â’u gwreiddiau Celtaidd, gan rannu storïau, iaith, hanes, bwyd a cherddoriaeth wrth iddynt ymweld â’r lleoedd arbennig hyn.


**Mae ‘Ein Llwybrau Celtaidd’ yn gydgynhyrchiad rhwng y darlledwyr S4C a TG4 a chwmni cynhyrchu Tinint. Mae’r gyfres yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg/Saesneg a Gwyddeleg/Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd domestig a chynulleidfaoedd rhyngwladol ehangach.**

## HYRWYDDO’R CASGLIAD PROFIADAU CELTAIDD

Ar ddiwedd 2022 lansiodd partneriaeth Llwybrau Celtaidd y Casgliad Profiadau Celtaidd – sef casgliad o brofiadau unigryw y gellir eu harchebu ac a fydd yn helpu’r sawl sy’n ymweld â chwe sir y bartneriaeth yng Ngorllewin Cymru a Dwyrain Hynafol Iwerddon i ddod yn nes at yr ysbryd Celtaidd ac i ddeall a dathlu’r lleoedd a’r bobl y maent yn ymweld â nhw.

Mae gan y Casgliad Profiadau Celtaidd ei adran benodol ei hun ar wefan Llwybrau Celtaidd, ac ar hyn o bryd mae’n cynnwys 78 o brofiadau yn amrywio o archaeoleg a beicio, i gerdded a syllu ar y sêr. Mae nifer o’r profiadau hyn yn gwbl newydd, ac efallai bod rhai eraill yn cael eu marchnata ar lefel leol yn unig, ac nad ydynt ar gael yn hawdd i ddarpar ymwelwyr pan fyddant yn cynllunio eu taith.

Gellir archebu Profiadau’r Llwybrau Celtaidd ymlaen llaw, naill ai cyn dechrau ar y daith, yn ystod y daith, neu ychydig cyn cyrraedd. Gellir chwilio’r rhestr ar wefan Llwybrau Celtaidd fesul lleoliad, naill ai yng Nghymru neu Iwerddon, fesul sir, neu yn ôl y math o brofiad, y gellir ei nodi trwy chwilio gan ddefnyddio hidlyddion




thematig, sy’n cynnwys Celf a Chrefft, Treftadaeth, Pererindod, Llesiant ac Ymwybyddiaeth Ofalgar, Natur a Bywyd Gwyllt, Chwaraeon Dŵr neu Aml-weithgaredd.

Ar ddechrau 2023 aethom ati i hyrwyddo a marchnata’r Casgliad Profiadau Celtaidd. Hyd yn hyn, rydym wedi gweithio gyda nifer o ddylanwadwyr Ewropeaidd i hyrwyddo’r Casgliad Profiadau Celtaidd, ac yn ystod y misoedd nesaf bydd saith newyddiadurwr a dylanwadwr yn mynd ar deithiau i’r wasg yng Nghymru ac Iwerddon i brofi gwibdeithiau thematig y Casgliad Profiadau Celtaidd, ac wedi hynny yn rhannu eu profiadau â’u dilynwyr a’u darllenwyr.

Law yn llaw â’r gwaith hwn rydym hefyd wedi lansio ymgyrch farchnata sylweddol yn y cyfryngau digidol a phrint, a hynny ar draws llwyfannau cymdeithasol gan gynnwys Facebook ac Instagram, yn ogystal â hysbysebion print a gyhoeddwyd mewn teitlau allweddol yn y cyfryngau, a bydd pob un ohonynt yn rhedeg trwy gydol misoedd y gwanwyn a dechrau’r haf.

## LLWYBRAU CELTAIDD YN Y CYFRYNGAU

**Ers ein cylchlythyr diwethaf, mae Llwybrau Celtaidd wedi cael llawer iawn o sylw ar draws y cyfryngau yn dilyn nifer o deithiau a drefnwyd gennym ar gyfer newyddiadurwyr allweddol.**

**British Travel Journal** – ym mis Medi cyhoeddwyd erthygl 12 tudalen anhygoel yn y British Travel Journal yn dilyn taith a drefnwyd gennym ar gyfer yr ysgrifenwr sy'n arbenigo mewn teithio, Jessica Way, a hynny yn ystod haf 2022. Gellir gweld yr erthygl yn llawn yma.

**Travel + Leisure** – ym mis Tachwedd, cyhoeddodd Travel + Leisure, sy'n gylchgrawn teithio blaenllaw yn yr Unol Daleithiau a chanddo gynulleidfa ar-lein o 11.3 miliwn o ddefnyddwyr unigryw bod mis, erthygl yn amlinellu ei brofiadau yng Nghymru ac Iwerddon yn dilyn taith i'r wasg a drefnwyd gennym ar ei gyfer ym mis Medi 2022. Gallwch weld yr erthygl ar-lein yma.


**Le Monde** – ym mis Chwefror 2023 roeddem wedi trefnu i ysgrifennwr teithio o Le Monde, sy'n bapur newydd blaenllaw yn Ffrainc, i ymweld â'r Llwybrau Celtaidd ledled Cymru ac Iwerddon. Cafodd yr erthygl ddilynol, a oedd yn amlinellu ei anturiaethau, ei chyhoeddi ar-lein ddiwedd mis Chwefror, a gallwch ddarllen yr erthygl ar-lein yma. Disgwylir i'r erthygl brint gael ei chyhoeddi y mis hwn!

**Lonely Planet Germany** – Ym mis Chwefror 2023, aeth golygydd teithio Lonely Planet Germany, sy'n gyhoeddiad teithio Ewropeaidd blaenllaw, ar ymweliad â Chymru ac Iwerddon ar ein gwahoddiad. Gallwch ddarllen yr erthygl ar-lein helaeth yma.

Ac mae rhagor ar y gweill! Ganol mis Mawrth aeth golygydd teithio un o bapurau newydd blaenllaw y DU, **The Sun**, ar ymweliad ag Iwerddon, a disgwylir i'r papur roi sylw i'r ymweliad yn fuan.

Mae yna hefyd nifer o deithiau ychwanegol i'r wasg i'w cynnal yn ystod misoedd yr haf – bydd rhagor o wybodaeth am hynny yn ymddangos yn fuan!











## DYLANWADWYR LEDLED Y LLWYBRAU CELTAIDD


Yn ystod y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn datblygu cynnwys gyda nifer o ddylanwadwyr teithio Ewropeaidd i hyrwyddo'r Casgliad Profiadau Celtaidd.

Ym mis Rhagfyr, roeddem wedi lansio pecyn cynnwys noddedig gyda'r dylanwadwr o'r Almaen, Franzi o Coconut Sports, a gyhoeddodd erthygl ar ei flog am y Casgliad Profiadau Celtaidd, y gallwch ei gweld yma, ynghyd â nifer o bostiadau cymdeithasol ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol Franzi, gan gynnwys Riliau gwirioneddol wych ar Instagram.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r dylanwadwr teithio o Ffrainc, Amelie o Hello Laroux, a gyhoeddodd bostiad ar ei blog am y Casgliad Profiadau Celtaidd, ynghyd â chynnwys a bostiwyd ar draws Instagram, Facebook a Pinterest.

Ac yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf mae yna nifer o deithiau pwrpasol wedi'u trefnu ar gyfer pedwar dylanwadwr teithio gwahanol er mwyn hyrwyddo'r Casgliad Profiadau Celtaidd, gan gynnwys Tailor Made Travels a Mountain Mols.





## EIN HYMGYRCHOEDD MARCHNATA – TROSOLWG

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae prosiect Llwybrau Celtaidd, mewn partneriaeth â'n timau marchnata, wedi cynnal nifer o ymarferion marchnata cyffrous i sicrhau bod y brand Llwybrau Celtaidd wedi'i weld gan gynulleidfa mor eang ac amrywiol â phosibl. Dyma gipolwg yn unig ar yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud:

- Bwrdd hysbysebu mawr 6 metr wrth 3 metr ym Mhorthladd Rosslare ar arfordir dwyreiniol Iwerddon – roedd y faner fawr hon yn cael ei harddangos mewn safle godidog yn yr awyr agored wrth i'r ceir adael porthladd fferïau Rosslare.
- Trefnwyd lleoliadau hysbysebu fformat mawr eraill oddi allan i'r cartref mewn canolfannau teithio sylweddol, gan gynnwys gwasanaethau ar ffyrdd allweddol, a Maes Awyr Caerdydd.
- Cynhwyswyd hysbysebion nodwedd yng nghyhoeddiadau blaenllaw'r cyfryngau cenedlaethol, gan gynnwys y Sunday Times, yn ogystal â chylchgronau ar awyrennau i ddal sylw marchnadoedd rhyngwladol.
- Rhoddwyd ymgyrch hysbysebu ddigidol eang ar waith yn arddangos nifer helaeth o ffotograffau a ffilmiau ymgyrchu, a hynny ar draws Facebook, Instagram, YouTube, Rhaglenni Arddangos Ar-lein a Thalu Fesul Clic, a arweiniodd at nifer sylweddol o ymweliadau â gwefan Llwybrau Celtaidd.











## FFILM NEWYDD BRAND LLWYBRAU CELTAIDD

Dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf byddwn yn cyflwyno ffilm sy'n dangos brand newydd Llwybrau Celtaidd ledled ein hymgyrchoedd hysbysebu ar-lein a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.




Nod y ffilm newydd, a ffilmiwyd ar leoliad ledled chwe sir y Llwybrau Celtaidd, sef Wicklow, Waterford a Wexford, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, yw ysbrydoli gwylwyr i 'deithio ar hyd y ffyrdd llai cyfarwydd', 'canfod gorwelion newydd' ac 'ymgolli'n llwyr mewn lle ac amser'. Gwyliwch y ffilm yma.

## LLYFRGELL ASEDAU LLWYBRAU CELTAIDD

Mae ein llyfrgell asedau ar-lein yn cynnwys miloedd o ffotograffau a fideos proffesiynol o leoliadau ledled y Llwybrau Celtaidd.

Bwriad y llyfrgell asedau yw darparu adnoddau marchnata gweledol RHAD AC AM DDIM o ansawdd uchel a fydd yn eich helpu i ddechrau ar eich taith Llwybrau Celtaidd gyda ni.

I archwilio ein detholiad helaeth o ddelweddau a fideos, cliciwch yma a chofrestrwch i gael mynediad, lle byddwch yn rhydd i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael, ar yr amod eich bod yn cadw at y Telerau Defnyddio ac yn cydnabod Llwybrau Celtaidd.



## LLWYBRAU CELTAIDD AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

**Dilynwch, rhannwch ac ymgysylltwch â chynnwys Llwybrau Celtaidd ledled eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun.**

@CelticRoutes

@CelticRoutes

@CelticRoutes

#LlwybrauCeltaidd
#MyCelticMoment
#CelticRoutes

